Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Amserlen ar gyfer ystyried: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Mawrth 2023

Ar 20 Mawrth 2023, cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn y Senedd.

Ar 28 Chwefror 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 21 Mawrth 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 14 Gorffennaf 2023.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 20 Hydref 2023, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.